

25. Iechyd, Diogelwch a Lles

Mae'r bennod hon yn disgrifio'r cyfrifoldebau iechyd a diogelwch mewn ysgolion, a'r materion sy'n berthnasol i iechyd, diogelwch a lles disgyblion, fel a ganlyn:

- Iechyd a diogelwch disgyblion;
- Gorfodi;
- Y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd;
- Ymweliadau addysgol a gweithgareddau oddi ar y safle;
- Teithio a chlodiant rhwng y cartref a'r ysgol;
- Cymorth cyntaf;
- Sbwriel;
- Goblygiadau cwricwlaidd: Cyfnod Allweddol 4, defnyddio sylweddau ymbelydrol lefel isel;
- Rheoli meddyginiaethau;
- Bwyd a llaeth ysgol;
- Gwisg ysgol;
- Diogelu a hyrwyddo lles disgyblion;
- Goruchwyllo meysydd chwarae; a
- Dyletswydd i adrodd am ddigwyddiadau.

Iechyd a Diogelwch Disgyblion

1. Mae cyfrifoldebau iechyd a diogelwch yn deillio o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 cysylltiedig. Mae disgyblion yn cael eu diogelu gan y dyletswyddau oherwydd eu bod wedi'u heffeithio gan ymrwymadau'r cyflogwr neu'n defnyddio safle'r ysgol. Mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn i gyflogwyr asesu a rheoli peryglon, ac fel arfer yn cael ei gorfodi gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn achos ysgolion.

Pwy sy'n Gyfrifol am Iechyd a Diogelwch Disgyblion?

2. Corff llywodraethu'r ysgol sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch disgyblion, naill ai fel cyflogwr staff yr ysgol neu oherwydd ei fod yn rheoli safle'r ysgol (neu'r ddau). Os nad yw corff llywodraethu'n cyflogi staff ysgol, yna'r ALL sydd â chyfrifoldebau cyflogwr.

3. O dan ddeddf esgeuluster gyffredinol, mae'n ofynnol i athrawon ysgol ofalu am blant o dan 18 oed fel petaent yn rhieni. Mae dyletswydd arnynt i drin a gofalu am ddisgybl fel y byddai unrhyw riant gofalus yn ei wneud (*Williams v Eady [1893] 10 TLR 41, CA*).

Cyflogwyr

4. Mae'r cyflogwr yn amrywio yn ôl y math o ysgol. Dyma'r cyflogwr mewn cyd-destunau gwahanol:

- yr ALI yw'r cyflogwr mewn ysgolion cymunedol, ysgolion arbennig, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion meithrin a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion; neu
- y corff llywodraethu yw'r cyflogwr mewn ysgolion sefydledig, ysgolion arbennig sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir.

5. Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau, cyn belled ag sy'n ymarferol bosibl, nad yw iechyd a diogelwch disgyblion mewn perygl yn yr ysgol ac yn ystod ymweliadau oddi ar y safle. Mae'n rhaid i'r cyflogwr fod â pholisi iechyd a diogelwch a bod â threfniadau i'w weithredu. Mae elfennau allweddol y polisi wedi'u nodi yn *Health and Safety: Responsibilities and Powers*. Mae'n rhaid i gyflogwyr asesu peryglon yr holl weithgareddau, cyflwyno mesurau i reoli'r peryglon hyn a dweud wrth eu gweithwyr cyflogedig amdanynt.

6. Mae gan y cyflogwr, boed yr ALI neu'r corff llywodraethu, y pŵer i sicrhau bod ei bolisi iechyd a diogelwch yn cael ei roi ar waith. Rhaid iddo baratoi canllawiau iechyd a diogelwch i'r ysgol a sicrhau bod aelodau'r staff y dirprwywyd tasgau iddynt, fel asesu risg a rheoli risg, yn ddigon cymwys i'w cyflawni. Os yw'r asesiad risg yn dangos bod angen hyfforddiant, mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod hyn yn digwydd. Ni all cyflogwr gyflawni ei ddyletswydd statudol oni bai ei fod yn monitro pa mor dda mae ei ysgolion yn cydymffurfio â'i bolisi.

7. Nid yw'r ALI yn gyfrifol am, ac nid oes ganddo'r grym i ymyrryd yn, iechyd a diogelwch disgyblion mewn ysgolion lle mae'r corff llywodraethu yn gyflogwr, oni bai fod perygl i ddiogelwch (nid iechyd) y disgybl, er enghraifft, os bydd disgyblaeth yn methu. Gweler *Health and Safety: Responsibilities and Powers*.

Cyrff Llywodraethu

8. Y corff llywodraethu sy'n rheoli safle pob ysgol (yn amodol ar gyfarwyddyd yr ALI mewn rhai achosion). Hyd yn oed os nad ydynt yn cyflogi staff ysgol, mae'n rhaid i gyrff llywodraethu, i'r graddau mai nhw sy'n rheoli safle'r ysgol, wneud popeth rhesymol i sicrhau bod y safle a'r offer sydd ar y safle yn ddiogel, ac nad ydynt yn peryglu iechyd disgyblion tra maent ar y safle dan sylw. Mae'n rhaid i gorrff llywodraethu (a phennaeth) ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir, ysgol gymunedol arbennig ac ysgol feithrin a gynhelir, gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan yr ALI sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch pawb yn yr ysgol, neu weithgareddau'r ysgol.

Gweithwyr Cyflogedig

9. Mae cyfrifoldebau ar weithwyr cyflogedig hefyd. Mae [Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974](#) a [Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999](#) cysylltiedig yn berthnasol iddynt hefyd. Mae'n rhaid i weithwyr cyflogedig mewn unrhyw fath o ysgol:

- gymryd gofal rhesymol am eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac eraill;
- cydweithio â'u cyflogwr a'r corff llywodraethu fel bo'r angen i sicrhau bod pawb yn cydymffurfio â'r dyletswyddau uchod;
- cyflawni gweithgareddau yn unol â'r hyfforddiant a chyfarwyddiadau;
- hysbysu'r cyflogwr o unrhyw berygl difrifol.

Gorfodi

Dyletswydd i Adrodd am Ddigwyddiadau

10. Mae'n bwysig fod gan ysgolion drefniadau ar gyfer cofnodi ac adrodd am unrhyw achosion o droseddu a cholli eiddo i'r heddlu a'r ALI (lle bo'n briodol). O dan [Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus](#) (RIDDOR), rhaid rhoi gwybod i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) am bobl sy'n cael anaf yn y gwaith, fel athro neu berson hunangyflogedig sy'n gweithio ar y safle.

11. O dan [Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974](#), bydd yr HSE fel arfer yn ystyried cymryd camau yn erbyn cyflogwr os digwyddodd rhywbeth difrifol yn sgil esgeulustod. Mewn rhai amgylchiadau fodd bynnag, er enghraifft lle methodd gweithiwr â chymryd sylw o bolisi neu gyfarwyddiadau iechyd a diogelwch y cyflogwr, gallai'r HSE gymryd camau yn erbyn y gweithiwr yn ogystal â'r cyflogwr.

Damweiniau a Chlefydau: Adrodd a Chofnodi

12. Rhaid i ysgolion adrodd i'r HSE a chofnodi unrhyw anaf sy'n arwain at gludo disgybl o safle'r ddamwain i'r ysbyty, waeth gan bwy. Mae hyn yn cynnwys unrhyw anafiadau yn sgil trais neu'n gysylltiedig â gwaith. Gweler y [Canllawiau](#) ar wefan Iechyd a Diogelwch APADGOS a hefyd [Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 1995](#) (RIDDOR). Mae taflen *RIDDOR Explained* ar gael, gyda ffurflen gofnodi, gan yr HSE.

13. Rhaid cadw cofnod o unrhyw farwolaeth adroddadwy, anaf, glefyd neu ddigwyddiad peryglus am dair blynedd ar ôl y dyddiad pan ddigwyddodd hynny. Dylai hyn gynnwys y dyddiad a'r dull cofnodi; dyddiad, amser a lleoliad y digwyddiad; manylion personol pawb oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad; a disgrifiad byr o natur yr anaf, y digwyddiad neu'r clefyd (gweler taflen ffeithiau'r HSE '[Incident-reporting in schools \(accidents, diseases and dangerous occurrences\)](#)').

14. O safbwynt [Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974](#) a'r Rheoliadau cysylltiedig, nid yw'r DDA yn gofyn i lywodraethwyr roi gweithwyr cyflogedig neu ddisgyblion mewn perygl amhriodol os oes mater iechyd a diogelwch yn codi. Er hynny, gall newidiadau i bolisiâu a gweithdrefnau a/neu hyfforddiant liniaru unrhyw beryglon iechyd a diogelwch sy'n codi gyda phobl neu ddisgyblion anabl. Efallai y bydd prosesau asesu risg a gynhelir i gydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn cynnig cyfle i ystyried yr addasiadau sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.

Y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DDA) 1995 (Fel y'i Diwygiwyd)

15. O dan [Ran 4 o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995](#) mae'n anghyfreithlon i gorff sy'n gyfrifol am ysgol wahaniaethu yn erbyn disgyblion anabl:

- o ran y trefniadau ar gyfer pennu derbyniadau;
- o ran y telerau a gynigir i dderbyn disgyblion;
- trwy wrthod neu'n fwriadol hepgor cais i dderbyn i'r ysgol;
- o ran yr addysg neu'r gwasanaethau cysylltiedig a gynigir i ddisgyblion anabl;
- trwy wahardd y disgybl, naill ai'n barhaol neu dros dro, o'r ysgol.

16. Hefyd, mae'n rhaid i'r corff sy'n gyfrifol am yr ysgol gymryd camau rhesymol yn ymwneud â'i drefniadau derbyn a'r addysg a'r gwasanaethau cysylltiedig a gynigir i ddisgyblion anabl, i sicrhau nad yw disgyblion anabl dan anfantais sylweddol. Er hynny, nid yw'r gofyniad hwn yn gofyn i gorff llywodraethu dynnu neu newid nodwedd ffisegol na darparu cymhorthion neu wasanaethau ategol.

17. Mae'n ofynnol i ALLau:

- beidio â gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl wrth gyflawni eu swyddogaethau addysg; a
- pharatoi strategaeth hygyrchedd. Dyma strategaeth i gynyddu i ba raddau mae disgyblion anabl yn cymryd rhan yn y cwricwlwm dros gyfnod penodol o amser, a gwella amgylchedd ffisegol yr ysgol fel y gall disgyblion anabl fanteisio ar yr addysg a'r gwasanaethau cysylltiedig a gynigir gan yr ysgol.

18. Nid oes gan unrhyw ran o'r DDA flaenoriaeth ar unrhyw ddyletswydd statudol arall sydd gan gyrrff cyfrifol (fel corff llywodraethu ysgol). Wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan [Ran 4 o DDA 1995](#), rhaid i lywodraethwyr sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol eraill sydd arnynt. Er hynny, nid yw bodolaeth unrhyw ddeddfwriaeth arall yn cynnig amddiffyniad awtomatig mewn achos o dan [Ran 4 o DDA 1995](#). Disgwylir i lywodraethwyr gymryd pa bynnag gamau sy'n angenrheidiol i sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau o dan y DDA ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n berthnasol iddynt.

19. O safbwynt Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a Rheoliadau cysylltiedig, nid yw'r DDA yn gofyn i lywodraethwyr roi gweithwyr cyflogedig neu ddisgyblion mewn perygl amhriodol os oes mater iechyd a diogelwch yn codi. Er hynny, gall newidiadau i bolisiâu a gweithdrefnau a/neu hyfforddiant liniaru unrhyw beryglon iechyd a diogelwch sy'n codi gyda phobl neu ddisgyblion anabl. Efallai y bydd prosesau asesu risg a gynhelir i gydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn gyfle i ystyried yr addasiadau sy'n ofynnol o dan y DDA.

Ymweliadau Addysgol a Gweithgareddau Oddi ar y Safle gan Gynnwys Gweithgareddau Antur

20. Mae gwybodaeth fanylach ar gynllunio a pharatoi gweithgareddau oddi ar y safle i'w chael yn yr Arweiniad i Ymweliadau Addysgol. Mae'n cynnwys gwybodaeth a phob math o ddogfennau ar gynllunio gweithgareddau oddi ar y safle. Ceir cymorth ychwanegol ar wefan TeacherNet hefyd, sef Health and Safety on Educational Visits. Mae gan gyrff llywodraethu sy'n gyflogwyr yr un swyddogaeth ag ALI.

Trafnidiaeth

Gwregysau Diogelwch ar Fysiau

21. Mae rheoliadau diogelwch yr Adran Dtrafnidiaeth (Rheoliadau Cerbydau Ffyrdd (eu Hadeiladwaith a'u Defnydd) 1986) yn ei gwneud hi'n ofynnol i gael gwregysau diogelwch mewn bysiau mini a bysus a ddefnyddir i gludo plant.

22. Dylai ysgolion wirio gyda chwmnïau bysus bod gwregysau diogelwch ar gael. Ers 1 Mai 1996 mae consesiwn 3:2 o Reoliadau Cerbydau Gwasanaethau Cyhoeddus (Y Gallu i Gludo) 1984 (sy'n caniatáu i dri phlentyn o dan 14 oed rannu sedd ddwbl) wedi'i ddileu lle ceir gwregysau diogelwch. Ers 10 Chwefror 1998, mae'n rhaid i bob bws mini a bws gael gwregysau diogelwch, waeth beth fo'u hoed.

Teithio a Chludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol

Cynlluniau Teithio i'r Ysgol

23. Er nad oes gofyniad statudol i gael cynlluniau teithio i'r ysgol, anogir ysgolion i'w cyflwyno. Mae datblygu a gweithredu cynllun teithio cadarn – sy'n ceisio lleihau'r defnydd o geir wrth gludo plant i'r ysgol trwy annog a galluogi mwy i gerdded, beicio a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn ddiogel – yn ffordd effeithiol ac uniongyrchol i ysgolion ddangos ymrwymiad cryf i iechyd eu disgyblion.

24. Gall gwaith sy'n deillio o gynlluniau teithio i'r ysgol, er enghraifft hyfforddiant cerdded neu feicio, helpu i ddangos bod yr ysgol yn ymrwymo i sicrhau diogelwch disgyblion.

25. Gall cynlluniau teithio i'r ysgol helpu ysgolion wrth gwblhau eu ffurflenni hunanwerthuso hefyd. Gall canlyniadau'r cynlluniau hyn helpu i ddangos bod ysgol yn ystyried lles a datblygiad personol y dysgwyr, a'i bod wedi ystyried barn dysgwyr, rhieni, gofalwyr a rhanddeiliaid eraill.

Teithio gan Ddysgwyr

26. Mae [Mesur Teithio gan Ddysgwyr \(Cymru\) 2008](#) (y Mesur o hyn ymlaen) wedi derbyn cydsyniad. Daeth darpariaethau amrywiol y mesur i rym yn ystod y cyfnod o fis Ebrill 2009 hyd ddechrau 2010. Mae'r mesur yn rhoi dyletswydd ar ALLau i hyrwyddo'r defnydd o ddulliau teithio amgen.

Dyletswydd i Asesu anghenion Teithio dysgwyr

27. Mae'r [Mesur](#) yn gosod dyletswydd ar ALI i asesu anghenion teithio dysgwyr o dan 19 oed, a rhai sy'n 19 oed ac a gychwynnodd gwrs addysg neu hyfforddiant pan oeddynt o dan 19 oed ac sy'n parhau i ddilyn y cwrs hwnnw, ac sydd fel arfer yn byw yn ardal yr awdurdod.

28. Ystyr 'anghenion teithio dysgwyr' yw anghenion dysgwyr am drefniadau teithio addas bob dydd rhwng y cartref a'r ysgol neu leoedd eraill y maent yn derbyn addysg a hyfforddiant (sef 'leoedd perthnasol'). Yn ymarferol, mae hyn yn golygu disgyblion o oedran ysgol gorfodol, oedran chweched dosbarth, a phlant o oedran addysg feithrin mewn darpariaeth a ariennir gan yr awdurdod, sydd o fewn y terfynau asesu sy'n ofynnol dan adran 2 o'r Mesur.

29. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gallu gwneud rheoliadau i gynnwys dysgwyr eraill os ydynt yn dymuno, er mwyn newid y terfynau asesu. Bydd yr asesiad yn cynnwys dysgwyr sy'n teithio i leoedd perthnasol yn ardaloedd awdurdodau eraill. Rhaid i'r awdurdod wneud yr asesiad hwn ym mhob blwyddyn academaidd fel rhan o baratodau'r flwyddyn academaidd nesaf. Bydd yr asesiad yn rhoi i'r ALI drosolwg o anghenion teithio'r dysgwyr, a bydd y wybodaeth hon yn ei helpu i wneud trefniadau teithio effeithiol ac effeithlon i ddysgwyr.

30. Nod yr asesiad yw cwmpasu anghenion teithio dysgwyr sy'n mynychu 'leoedd perthnasol' ar ddiwrnodau gwahanol, o gofio'r ffaith fod rhai dysgwyr yn mynychu ysgol wahanol neu sefydliad addysg bellach am ran o'u haddysg neu hyfforddiant neu eu bod yn cael profiad gwaith yn rhywle arall, neu wedi cofrestru i ddysgu seiliedig ar waith. Mae dyletswyddau'r Mesur i wneud trefniadau teithio yn ymwneud â theithio o'r cartref i'r ysgol (neu le perthnasol arall) ac yn ôl adref.

Dyletswydd ALI i Wneud Trefniadau Cludiant

31. Mae'r [Mesur](#) yn gosod dyletswydd ar ALI i wneud trefniadau cludiant i blant o oedran ysgol gorfodol dan amgylchiadau penodol ac yn amodol ar amodau penodol, fel y cyflwynir yn y Mesur. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer system o hawl i gael cludiant am ddim, a ddiffinnir gan a yw plant yn derbyn addysg gynradd neu uwchradd ac a ydynt yn byw pellter penodedig o'r lleoedd y maent yn derbyn addysg neu hyfforddiant, neu ymhellach na hynny. Mae'r dull hwn yn debyg i system a grëwyd trwy gyfuno [adrannau 444](#) a [509](#) o Ddeddf Addysg 1996.

32. Mae'r Mesur yn nodi bod 'rhaid i'r awdurdod lleol wneud trefniadau teithio addas i hwyluso'r ffordd i'r plentyn fynychu bob dydd y manau perthnasol lle y mae'r plentyn yn cael addysg neu hyfforddiant'. Mae'n rhaid arfer gofal er mwyn sicrhau bod anghenion teithio pob dysgwr o dan 19 oed sy'n preswyl fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol yn cael eu hasesu yn unol â'r trefniadau teithio hyn. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, dysgwyr ifanc ar safleoedd Sipsiwn Teithwyr.

Cyfyngiadau ar Ddyletswyddau Teithio gan Ddysgwyr

33. Nid yw'r ddyletswydd ar ALI yn ymestyn i deithio yn ystod y dydd neu deithio am resymau ar wahân i fynychu lleoedd perthnasol i gael addysg a hyfforddiant, ac nid yw'n ofynnol i ALI ystyried anghenion teithio a all godi yn ystod y dydd. Nid yw tripiâu ysgol nac ymweliadau preswyl yn rhan o'r dyletswyddau.

Dulliau Teithio Cynaliadwy

34. Mae [Adran 11](#) y Mesur yn gosod dyletswydd ar ALI a Llywodraeth y Cynulliad i hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan [y Mesur](#). Mae hyn yn golygu y dylai ALI ystyried cynaliadwyedd wrth asesu anghenion teithio dysgwyr o dan adran 2(2). Rhaid ystyried a hyrwyddo materion cynaliadwyedd ar gyfer trefniadau teithio gan ALI a Llywodraeth y Cynulliad hefyd. Er enghraifft, gall hyn olygu annog dysgwyr i deithio ar fws yn hytrach na char.

Cod Ymddygiad wrth Deithio

35. O dan [Adran 12](#), mae'n ofynnol i Lywodraeth y Cynulliad lunio cod ymddygiad wrth deithio sy'n gosod y safonau ymddygiad a ddisgwylir gan deithwyr wrth deithio i'w man dysgu ac yn ôl, a'i adolygu bob hyn a hyn. Bydd y Cod yn berthnasol i bob dysgwr o dan 19 oed, a rhai sy'n 19 oed ac a gychwynnodd gwrs addysg neu hyfforddiant pan oeddynt o dan 19 oed ac sy'n parhau i ddilyn y cwrs hwnnw.

Gorfodi'r Cod Ymddygiad wrth Deithio: Disgyblion mewn Ysgolion Perthnasol

36. Mae [Adran 13](#) o'r Mesur yn diwygio [adran 89 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006](#) sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i bennaeth bennu polisi ymddygiad yr ysgol. Mae isadran (2) yr adran honno yn gofyn i bennaeth sy'n pennu mesurau ymddygiad plant, ddilyn datganiad neu ganllawiau'r corff llywodraethu ar ddisgyblu yn yr ysgol. Mae isadran newydd o adran 89, a fewnosodwyd gan y Mesur, yn gosod dyletswydd ar bennaeth i bennu mesurau disgyblu er mwyn i ddisgyblion gydymffurfio â'r cod ymddygiad wrth deithio.

Gorfodi'r Cod Ymddygiad wrth Deithio: Dileu Trefniadau Teithio

37. Caniateir i ALI ddileu trefniadau teithio ar gyfer dysgwr nad yw'n cydymffurfio â'r cod ymddygiad.

Cydweithio: Gwybodaeth a chymorth Arall

38. Mae Adran 17 o'r Mesur yn amlinellu'r wybodaeth ac unrhyw gymorth arall sydd ei angen rhwng y parti'on perthnasol, fel yr amlinellir ym mharagraffau 37 a 38.

39. Mae dyletswydd ar gorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach i gydweithio ag ALI. Rhaid iddynt roi gwybodaeth neu unrhyw gymorth angenrheidiol arall i'r ALI gyflawni'i ddyletswyddau o dan y Mesur. Mae'n ofynnol i ALIau roi gwybodaeth neu gymorth i'w gilydd a all fod yn rhesymol er mwyn asesu a gwneud trefniadau teithio. Bydd hyn yn sicrhau bod swyddogaethau'n cael eu cyflawni'n effeithiol pan fo dysgwyr yn teithio o un awdurdod i'r llall neu pan fo plentyn yn byw mewn dau awdurdod gwahanol.

40. Mae'n ofynnol i ALI neu'r pennaeth ddarparu gwybodaeth neu unrhyw gymorth rhesymol arall sydd ei angen ar y parti arall er mwyn cyflawni eu swyddogaethau o dan y Mesur.

Cymorth Cyntaf

41. Mae [Rheoliadau Iechyd a Diogelwch \(Cymorth Cyntaf\) 1981](#) yn cyflwyno'r gofynion sy'n ymwneud â gweithwyr cyflogedig. Argymhellir bod ysgolion yn trin disgyblion fel pe baent yn weithwyr cyflogedig at ddibenion cymorth cyntaf, a'u bod yn darparu deunyddiau cymorth cyntaf fel sy'n briodol ar ôl asesu risg.

Sbwriel

42. Mae'n rhaid i gyrff llywodraethu gadw eu tir dan reolaeth ac yn rhydd o sbwriel a gwastraff fel sy'n ymarferol bosibl, o dan [Adran 89 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990](#).

Goblygiadau Cwricwlaidd: Cyfnod Allweddol 4, Defnyddio Sylweddau Ymbelydrol Lefel Isel

43. Mae'n ofynnol i ysgolion yng Nghymru gael caniatâd gan Lywodraeth y Cynulliad i brynu neu gadw sylweddau ymbelydrol lefel isel. Mae'r ffurflen gymeradwyaeth ar gael o'r adran [Ysgolion](#) ar wefan Iechyd a Diogelwch APADGOS. Er nad oes cyfraith gyfatebol, roedd y gofyniad gwreiddiol yn tarddu o'r Adran dros Addysg a Chyflogaeth (DCSF erbyn hyn) (a thrwy'r Swyddfa Gymreig/ y Cynulliad wedyn) trwy Femorandwm Gweinyddol AM 1/92. Er nad yw'r gofyniad hwn mewn grym yn Lloegr ers 1 Medi 2008, mae'n berthnasol yng Nghymru o hyd.

Rheoli Meddyginiaethau

44. Dylai pob ysgol ddatblygu polisiau i ddiwallu ei hanghenion ei hun. Y corff llywodraethu sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am holl bolisiau'r ysgol, hyd yn oed os nad y corff llywodraethu yw'r cyflogwr. Dylai corff llywodraethu ystyried barn y pennaeth, staff a'r rhieni wrth ddatblygu polisi ar gyfer helpu disgyblion ag anghenion meddygol. Os mai'r ALI yw'r cyflogwr, dylai corff llywodraethu'r ysgol ddilyn polisiau iechyd a diogelwch yr ALI.

Bwyd a Llaeth Ysgol

Prydau Ysgol

45. Dyletswydd yr ALI yw darparu llaeth a phrydau ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys, a chydymffurfio â'r safonau maeth cenedlaethol, oni bai y gwnaed gorchymyn dan [adran 512A](#) o Ddeddf Addysg 1996 sy'n trosglwyddo dyletswyddau i gorff llywodraethu.

46. Gwneir gorchymynion o'r fath pan fydd cyllideb yn cael ei dirprwyo. Pan fydd gan gorff llywodraethu ddyletswyddau o'r fath, gall wneud darpariaethau trwy drefniadau y trafododd ei hunan, neu trwy brynu gwasanaeth arlwyo ALI yn ôl – nid yw hyn yn golygu symud dyletswydd gyfreithiol y ddarpariaeth yn ôl i'r ALI.

47. Tra bod cyflenwyr bwyd yn gorfod cydymffurfio â deddfwriaethau amrywiol, mae'n rhaid i sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n cyflenwi bwyd gwblhau diwydrwydd dyladwy effeithiol i sicrhau ansawdd a chydymffurfiaeth eu cyflenwyr. Er mwyn hwyluso hyn caiff Awdurdodau Lleol eu hannog i sicrhau bod archwilydd trydydd parti annibynnol yn cynnal archwiliad hylendid bwyd parthed eu cyflenwyr bwyd. O dan y gyfraith, mae'n ofynnol i weithredwyr busnesau bwyd fod â system rheoli diogelwch bwyd sy'n seiliedig ar egwyddorion system Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol (HACCP). Mae hyn yn effeithio ar y broses o gyflenwi, paratoi, pecynnu, storio a dosbarthu bwyd.

Darparu Prydau

48. Mae Adran 512 o Ddeddf Addysg 1996 yn nodi y gall ALI ddarparu prydau neu luniaeth arall i ddisgyblion naill ai ar safle'r ysgol neu unrhyw le arall sy'n darparu addysg. Mae Adran 87 o [Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006](#) yn diwygio Deddf 1996, er mwyn rhoi'r rhyddid i ALIau gynnig prydau am ddim, ffrwythau ffres, llaeth neu unrhyw luniaeth arall i bob disgybl yn ystod y diwrnod ysgol, waeth beth yw incwm y teulu. Os yw ALI yn defnyddio'r pŵer i godi tâl am ddarpariaeth o'r fath, mae'n rhaid iddo godi tâl ar bob disgybl neu berson arall, sef yr un pris am yr un faint o'r un peth.

49. Dylai corff llywodraethu unrhyw ysgol a gynhelir ganiatáu i ALI gael unrhyw gyfleusterau angenrheidiol ar gyfer darparu prydau ysgol.

Swyddogaethau Corff Llywodraethu

50. Bydd corff llywodraethu ysgol a gynhelir yn darparu cyfleusterau i'r ALI allu cyflawni ei swyddogaethau, fel y nodir uchod.

51. Gall corff llywodraethu ysgol a gynhelir sydd â chyllideb ddirprwyedig sy'n darparu llaeth, prydau neu luniaeth arall i ddisgyblion neu eraill sy'n derbyn addysg ar y safle, godi tâl am unrhyw beth a ddarperir. Lle bo'r corff llywodraethu yn defnyddio'r pŵer i godi tâl, dylai godi'r un pris am yr un faint o'r un eitem.

52. O fis Ebrill 2000 ymlaen, cafodd cyllideb prydau ysgol ei dirprwyo i'r holl ysgolion uwchradd. Mae ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig yn gallu dewis dirprwyo. Os oes gan ysgol gyllideb ddirprwyedig ar gyfer prydau, yna'r corff llywodraethu sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, darparu prydau ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys, darparu prydau 'talwyd amdanynt' fel bo'r angen, cydymffurfio â gofynion safonau maeth Rheoliadau Cinio Ysgol, a phenderfynu ar gynnwys a chostau prydau.

Prydau am Ddim (Cinio)

53. Os cafwyd cais gan neu ar ran disgybl, mae Adran 512 o Ddeddf Addysg 1996, fel y'i diwygiwyd gan [Ddeddf Addysg 2002](#) yn nodi bod rhaid i'r ALI neu gorff llywodraethu'r ysgol (os yw cyllideb prydau ysgol wedi'i dirprwyo iddynt) ddarparu cinio am ddim i ddisgyblion os yw eu rhieni'n derbyn:

- Cymhorthdal Incwm;
- Lwfans Ceisio Gwaith – yn seiliedig ar incwm;
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n Seiliedig ar Incwm;

- cymorth o dan [Ran 6 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999](#);
- Credyd Treth Plant (cyn belled nad ydynt yn gallu hawlio'r Credyd Treth Gwaith ac yn derbyn incwm blynyddol, wedi'i asesu gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, heb fod dros £16,190 ar 6 Ebrill 2010); neu
- elfen warantedig o Gredyd Pensiwn y Wladwriaeth.

Mae plant sy'n derbyn Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith – yn seiliedig ar eu hincwm eu hunain, yn gallu hawlio prydau ysgol am ddim hefyd.

Safonau Maeth

54. Mae'n rhaid i holl brydau ysgol fodloni safonau gofynnol [Rheoliadau Addysg \(Safonau Maeth Cinio Ysgol\) \(Cymru\) 2001](#). Byddem yn annog ysgolion sy'n awyddus i bennu safonau uwch na'r safonau gofynnol gorfodol sydd mewn grym ar hyn o bryd i anelu at y safonau a gynigir yng *Nghynllun Gweithredu Blas am Oes*.

55. Os yw cyllideb prydau ysgol wedi'i dirprwyo i'r ysgol, yna mae'r ddyletswydd i sicrhau bod yr holl brydau a ddarperir yn cydymffurfio â'r safonau hyn wedi'i throsglwyddo i'r corff llywodraethu.

56. Yn amodol ar fodloni gofynion y Rheoliadau safonau maeth, yr ALI neu'r corff llywodraethu sy'n penderfynu ar gynnwys, cyflwyniad a chost bwyd ysgol, ac yn achos system talu arian parod mewn caffi, yn pennu'r lwfans safonol i rai sy'n gymwys i gael prydau am ddim. Byddant yn codi'r un faint o dâl am yr un faint o'r un eitem ar ddisgyblion eraill, er y gallant fod yn brydau a gymorthdelir.

Llaeth

57. Yn ôl Rheoliadau 657/2008 y Comisiwn, dylai cynllun cymhorthdal llaeth ysgol yr Undeb Ewropeaidd fod ar gael mewn meithrinfeydd, sefydliadau cyn-ysgol, ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'r cynllun yn caniatáu i 0.25 litr o laeth a gymorthdelir neu gynhyrchion llaeth cymwys gael eu cynnig i bob plentyn y dydd. Mae Cynllun Cymhorthdal Llaeth Ysgol yr UE yn cael ei weinyddu gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig, a dylid gwneud unrhyw hawliadau trwy'r ALI. Rhaid i bob ysgol sy'n rhan o'r cynllun arddangos posteri gyda baner yr UE.

58. O dan [Reoliadau Llaeth Ysgol \(Cymru\) 2008](#), mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn gallu cael llaeth heb i'w rhieni orfod talu amdano. Mae plant yng nghyfnod allweddol 2 sy'n derbyn llaeth o dan Gynllun Cymhorthdal Llaeth Ysgol yr UE yn gallu cael cymhorthdal cenedlaethol ychwanegol am y llaeth y maent yn ei dderbyn. Mae'r cymhorthdal yn cael ei gyfrifo gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig pan gyflwynir hawliadau.

59. O dan [Gynllun Cychwyn Iach](#) yr Adran Iechyd mae gofalcwyr dydd yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys gofalcwyr cyn-ysgol, meithrinfeydd a gwarchodwyr plant, yn gallu hawlio ad-daliad am roi llaeth am ddim i blant o

dan 5 oed sydd dan eu gofal am ddwy awr neu fwy y dydd. Dylid gwneud hawliadau am blant o dan 5 oed mewn dosbarthiadau cyn-ysgol a dosbarthiadau derbyn yr ALI, drwy'r ALI.

Dŵr yfed

60. T Mae'n rhaid i'r ALI neu gorff llywodraethu sicrhau bod disgyblion yn gallu cael gfael ar ddŵr yfed, ffres, yn hawdd ac am ddim. Yr arfer gorau yw fod y ffynhonnell hon o ddŵr yfed mewn gwahanol leoliad i ardal y toiledau.

Gwisg Ysgol

61. Nid oes deddfwriaeth sy'n ymdrin yn benodol â gwisg ysgol, rheolau gwisg neu unrhyw agweddau eraill ar edrychiad fel lliw a steil gwallt, a gwisgo tlysau a cholur. Mater i gyrff llywodraethu yw penderfynu a ddylid cael gwisg ysgol a/neu reolau eraill yn ymwneud ag edrychiad, ac os felly, beth ddylent fod. Mae hyn yn rhan o'u cyfrifoldeb i oruchwylio trefn rheoli'r ysgol a'u dyletswydd i sicrhau bod polisiau'r ysgol yn hyrwyddo ymddygiad a disgyblaeth dda ymhlith disgyblion.

62. Mae gwybodaeth am hyn wedi'i chynnwys ym Mhennod 16, Polisiau Gwisg Ysgol ac Edrychiad Disgyblion.

Diogelu a Hyrwyddo Lles Disgyblion – gan Gynnwys Amddiffyn Plant

63. Daeth Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 i rym yng Nghymru ar 1 Medi 2006, gan roi dyletswydd ar ALLau, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach a pherchnogion ysgolion annibynnol i sicrhau bod trefniadau ar waith i:

- ddefnyddio eu swyddogaethau diogelu a hyrwyddo lles plant;
- ystyried unrhyw ganllawiau gan Lywodraeth y Cynulliad wrth baratoi'r trefniadau hyn.

64. Mae "diogelu" yn cwmpasu mwy na chyfrannu at ddiogelu plant o safbwynt plant unigol. Mae'n cwmpasu materion fel iechyd a diogelwch disgyblion, a bwlio, sydd â gofynion statudol penodol iddynt. Mae hefyd yn cynnwys pob math o faterion eraill, er enghraifft: trefniadau ar gyfer diwallu anghenion plant â chyflwr meddygol; addysg rhyw a chydberthynas, a chamddefnyddio cyffuriau a sylweddau – mae Llywodraeth y Cynulliad wedi paratoi canllawiau arnynt. Efallai bod materion diogelu eraill sy'n unswydd ar gyfer ardal neu boblogaeth leol hefyd.

65. Os oes gofynion statudol ar gael eisoes, dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod gan eu hysgolion bolisiau a gweithdrefnau ar waith sy'n eu bodloni ac yn cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau gan Lywodraeth y Cynulliad. Hefyd, dylai trefniadau am faterion sy'n destun canllawiau Llywodraeth y Cynulliad gael eu nodi mewn polisiau a gweithdrefnau sy'n cydymffurfio â'r

canllawiau hynny, neu sy'n cyflawni effaith debyg. Mae hefyd angen i gyrrff llywodraethu ddangos eu bod wedi ystyried a oes gan blant, gan gynnwys plant unigol yn eu hardal neu sefydliad, unrhyw anghenion diogelu penodol yn ychwanegol at y rhai sydd wedi cael sylw yn y canllawiau hynny, ac os felly, bod gan gyrrff llywodraethu bolisiau a gweithdrefnau ar waith i ddiwallu'r anghenion hynny.

66. Felly, mae cyrrff llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod gan eu sefydliad bolisiau a gweithdrefnau diogelu plant effeithiol sy'n unol â chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad, unrhyw ganllawiau gan yr ALI a gweithdrefnau rhyngasiantaethol sydd wedi'u pennu'n lleol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi Canllaw i Ysgolion mwy manwl yng Nghylchlythyr 05/2008 'Diogelu Plant mewn Addysg: Rôl Awdurdodau Lleol a Chyrrff Llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002'. Mae hyn yn ychwanegol i ganllaw cynharach Llywodraeth Cynulliad Cymru yng Nghylchlythyr 12/2007 'Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o Dan Ddeddf Plant 2004' sy'n amlinellu canllawiau ychwanegol ar ddiogelu mewn Amgylchiadau Penodol.

Honiadau yn Erbyn Staff

67. Mae angen dilyn canllawiau penodol wrth ymdrin â honiadau yn erbyn staff. Am fwy o wybodaeth am hyn, gweler Pennod 10, Staffio.

Gweithdrefnau Recriwtio mwy Diogel

68. Dylai llywodraethwyr sicrhau eu bod yn gweithredu o fewn y ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol wrth fynd ati i recriwtio staff ysgol. Am fwy o wybodaeth am recriwtio, gweler Pennod 10, Staffio.

Goruchwylio'r Maes Chwarae

69. Nid oes rheoliadau o ran faint o oedolion ddylai fod yn gyfrifol am ddisgyblion yn ystod amser cinio ac unrhyw egwyl arall. Yr ysgolion sydd yn y sefyllfa orau, ar ran y cyflogwr, i asesu'r peryglon lleol a sicrhau bod digon o oruchwyliwyr cymwys ar gael i reoli'r peryglon. Mae angen rhoi gwybod i'r rhieni faint o'r gloch mae'r ysgol yn dechrau goruchwylio'r plant ar ddechrau'r diwrnod ysgol, a faint o'r gloch y maent yn gorffen goruchwylio yn y prynhawn.

Diogelwch yn yr Ysgol

70. Fel arfer, mae'r ALI, fel cyflogwr, a'r corff llywodraethu yn rhannu'r baich o reoli diogelwch yn yr ysgol. Os mai cyrrff llywodraethu yw'r cyflogwyr, nhw sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau diogelwch yn yr ysgol fel rhan o'u dyletswyddau iechyd a diogelwch.

71. Mae gan ysgolion y grym i wahardd oedolion trafferthus o safle'r ysgol. Mae gan ALI, neu gorff llywodraethu yn achos ysgol a gynhelir, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol arbennig sefydledig, y grym i awdurdodi

symud unrhyw un sy'n creu helynt neu niwsans oddi ar safle'r ysgol, o dan [Adran 547](#) o Ddeddf Addysg 1996. (Yn achos ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion arbennig sefydledig, dim ond gyda chaniatâd y corff llywodraethu y gall ALI wneud hyn.)

72. Roedd Adran 550AA o Ddeddf Addysg 1996, a fewnosodwyd o dan [Adran 45 o Ddeddf Lleihau Troseddau 2006](#) yn cyflwyno'r pŵer i benaethiaid ac aelodau eraill o staff ysgol chwilio disgybl, heb ganiatâd, os oes ganddynt amheuaeth resymol ei fod yn cario cylllell neu unrhyw arf arall. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu cychwyn y pŵer hwn yn Hydref 2010 a bydd yn cyhoeddi canllawiau ynghylch y defnydd ohono ar yr un pryd.

Defnyddio Grym i Reoli neu Ffrwyno Disgyblion

73. Mae [Adran 93](#) o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn rhoi'r pŵer statudol i staff ysgol ddefnyddio grym rhesymol er mwyn atal disgybl rhag gwneud (neu barhau i wneud) unrhyw un o'r canlynol:

- cyflawni unrhyw drosedd;
- achosi anaf personol i unrhyw un, neu ddifrodi eiddo unrhyw un (gan gynnwys y disgybl ei hun);
- tanseilio trefn ac ymddygiad da yn yr ysgol neu ymhlith unrhyw ddisgyblion sy'n derbyn eu haddysg yn yr ysgol, boed yn ystod gwrs neu beidio.

74. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu cychwyn y pŵer hwn yn Hydref 2010 a bydd yn cyhoeddi canllawiau ynghylch y defnydd ohono ar yr un pryd.

Hawliau Tramwy

75. T Roedd Deddf Priffyrdd 1980 yn cynnwys darpariaeth i wyro neu ddiddymu hawliau tramwy ar draws safle'r ysgol os oes perygl i ddiogelwch disgyblion neu staff. Tra bod Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi cynnal ymgynghoriad ar yr hawl i ysgolion yn Lloegr, ymhlith eraill, wneud cais i wyro neu gau llwybr, a'r hawl i apelio yn erbyn gwrthod hynny, nid yw'r hawl hwn mewn grym yng Nghymru ar hyn o bryd.

Y Gyfraith

[Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974](#)

[Rheoliadau Iechyd a Diogelwch \(Cymorth Cyntaf\) 1981](#)

[Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 Adran 89](#)

[Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau](#)

[Peryglus 1995 \(RIDDOR\)](#)

[Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd \(DDA\) 1995](#) (fel y'i diwygiwyd)

[Rheoliadau Cerbydau Ffyrdd \(eu Hadeiladwaith a'u Defnydd\) \(Diwygio\) \(Rhif 2\) 1996](#)

[Rheoliadau Cerbydau Gwasanaethau Cyhoeddus \(Y Gallu i Gludo\) \(Diwygio\) 1996](#)

[Deddf Addysg 1996](#).

[Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999](#)

[Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001](#)

[Rheoliadau Addysg \(Safonau Maeth Cinio Ysgol\) \(Cymru\) 2001](#)

[Deddf Addysg 2002](#)

[Deddf Lleihau Troseddau 2006](#)

[Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006](#)

[Mesur Teithio gan Ddysgwyr \(Cymru\) 2008](#)

[Rheoliadau Llaeth Ysgol \(Cymru\) 2008](#)

Canllawiau

[Health and Safety: Responsibilities and Powers DfES/0803/2001](#)

Mae gwefan Iechyd a Diogelwch APADGOS yn <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/?skip=1&lang=cy> yn cynnwys

[Canllawiau](#) ar y pynciau canlynol:

Cofnodi damweiniau a chlefydau

Arweiniad i ymweliadau addysgol